IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 28 IONAWR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Jacobsen a/ac Wood |

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

2 : CAIS AM AMRYWIAD I DRWYDDED SAFLE - BLACK SALT, HEOL YR EGLWYS NEWYDD

Yn bresennol:

Ymgeisydd:

Carmella Azzopardi

Awdurdodau Cyfrifol:

Tomos Jenkins, Rheoli Llygredd
Claire Dewhurst, Heddlu De Cymru

Y Cais

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan STK House Limited mewn perthynas â Black Salt, 188 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

Roedd y cais yn gofyn am y canlynol:

(i) Diwygio gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle a'r oriau agor:

Dydd Llun i nos Sul: 12:00 i 01:00

(ii) Ychwanegu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw:
Nos Lun i nos Sul: 18:00 i 01:00

Darparu adloniant rheoledig ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio:

Dydd Llun i nos Sul: 12:00 i 01:00

Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do):

Nos Lun i nos Sul: 23:00 i 01:00

Ar ddechrau'r gwrandawiad, cadarnhaodd Mrs Azzopardi ei bod hi wedi cytuno i dderbyn yr oriau canlynol ar gyfer gwerthu alcohol yn unol â'r cais a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru a Rheoli Llygredd:

Gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle
Dydd Sul i nos Iau 10:00 - 23:30
Dydd Gwener i ddydd Sadwrn 10:00 i 00:00

Derbyniwyd yr amod ychwanegol canlynol hefyd:

Caniateir cyfnod o 20 munud ar ddiwedd pob cyfnod o oriau a ganiateir ar gyfer yfed alcohol ar y safle i bobl sy'n cael pryd o fwyd, ar yr amod i'r alcohol gael ei weini gyda'r pryd o fwyd.

Dywedodd Mrs Azzopardi wrth yr Is-bwyllgor ei bod wedi ailfeddwl ers cytuno i dderbyn yr amodau uchod ac felly ei bod yn dymuno ceisio gwerthu alcohol a chynnig lluniaeth gyda'r nos tan ganol nos (00:00) o nos Lun tan nos Sul.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd</u>

Siaradodd Mrs Azzopardi â'r Is-bwyllgor. Nododd Mrs Azzopardi ei bod yn ceisio gwerthu alcohol tan 00:00 ganol nos drwy gydol yr wythnos er mwyn bod â'r hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer ei chwsmeriaid a oedd fel arfer yn grwpiau teulu a phobl aeddfed. Hysbyswyd yr Aelodau bod y busnes, ers agor y safle ym mis Mai 2021, wedi cael ei groesawu'n fawr gan drigolion lleol. Mae'r safle yn fwyty ciniawa cain i deuluoedd ac nid adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau.

Nododd Mrs Azzopardi fod y busnes yn darparu lleoliad lle gall cwsmeriaid deimlo'n gyfforddus a'i bod hi wedi cael ei synnu'n fawr gan yr ymateb. Byddai'r pwynt gorffen am ganol nos ar gyfer gwerthu alcohol yn rhoi'r hyblygrwydd i'r busnes ddarparu ar gyfer achlysuron teuluol megis penblwyddi a phenblwyddi priodas. Ni fyddai'r 30 munud ychwanegol yn cael eu defnyddio'n aml ac nid oedd yn debygol y byddai llawer o gwsmeriaid ar y safle ar gyfer y 30 munud ychwanegol.

Nid oedd Mrs Azzopardi'n derbyn y byddai angen cyflogi dyn drws wedi'i gymeradwyo gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ar y safle i ddarparu ar gyfer y 30 munud ychwanegol y gwnaed cais amdanynt. Roedd hi'n ystyried y byddai hyn yn cyfleu'r ddelwedd anghywir am y busnes. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Mrs Azzopardi wedi gweithredu trwydded safle o'r blaen yng nghanol y ddinas am 30 mlynedd a'i bod yn ymwybodol o'r problemau posibl. Fodd bynnag, roedd y cwsmeriaid yn y bwyty hwn yn deuluoedd, a phobl fwy aeddfed.

Gan ymateb i gwestiwn gan yr Is-bwyllgor, nododd Mrs Azzopardi y byddai'r caniatâd y gwnaed cais amdano yn rhoi'r opsiwn i'r busnes aros ar agor tan ganol nos ond na fyddai'r safle'n gweithredu tan yr amser hwnnw bob dydd. Yn ogystal, roedd Mrs Azzopardi bellach yn ystyried y dylid adfer y ddarpariaeth ar gyfer adloniant wedi'i reoleiddio a cherddoriaeth wedi'i recordio hefyd tan ganol nos.

Cadarnhaodd Mrs Azzopardi y byddai'r cynllun Her 25 yn cael ei weithredu ar y safle. Byddai 4 aelod o staff ar ddyletswydd ar y safle pan fo'r busnes yn gweithredu.

Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd yn bosibl gwneud cais am hysbysiad digwyddiad dros dro i ganiatáu am yr achlysuron hynny oherwydd nad oeddent bob amser yn derbyn hysbysiad ymlaen llaw pan gaiff archebiadau eu derbyn. Nododd Mrs Azzopardi nad oedd cwsmeriaid yn cael eu hysbysu fel mater o arfer fod y safle'n gweithredu tan 23:00. Yn ei phrofiad hi, nid oedd yn gyffredin i fusnesau bwyty wneud hyn ac nad oedd unrhyw gynlluniau i reoli disgwyliadau cwsmeriaid o ran oriau cau.

<u>Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol</u>

Siaradodd Claire Dewhurst â'r Is-bwyllgor. Hysbyswyd yr Aelodau fod Heddlu De Cymru wedi ceisio dod i gytundeb ar yr oriau a ganiateir cyn y cyfarfod ac mae ei dealltwriaeth hi oedd bod cytundeb wedi'i gyrraedd. Roedd Heddlu De Cymru'n gwrthwynebu rhoi amrywiad i'r drwydded. Gwnaed sylwadau i'r cais a gofynnwyd am amodau ychwanegol. Crynhodd Claire Dewhurst yr amodau fel y'u nodir yn y sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru fel a ganlyn:

Gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:

Dydd Sul i nos Iau 10:00 - 23:30
Dydd Gwener i ddydd Sadwrn 10:00 - 00:00

Darparu adloniant rheoledig ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio:

Nos Sul i nos Iau 23:00 - 23:30
Nos Wener i nos Sadwrn 23:00 - 00:00

Ni ddylid darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw yn hwyrach na'r amser wedi'i ddadreoleiddio o 23.:00

Darparu lluniaeth hwyr y nos:

Nos Sul i nos Iau 23:00 - 23:30
Nos Wener i nos Sadwrn 23:00 - 00:00

I gynnwys yr amodau ychwanegol:

1) Pan fo'r safle ar agor i'r cyhoedd ar ôl canol nos ar nos Wener, nos Sadwrn a'r nosweithiau Sul hynny yn union cyn gwyliau banc, bydd goruchwylwyr drysau sydd wedi derbyn hyfforddiant gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch yn cael eu cyflogi o 22:00 nes bod y safle'n cau.

2) Caiff cofrestr o oruchwylwyr drysau ei chadw ar y safle. Bydd y gofrestr yn dangos enw llawn, rhif cofrestru'r ADD pob goruchwyliwr drws a dyddiad dod i ben ei drwydded ADD gyfredol, gan nodi amserau dyletswydd dechrau a gorffen gan bob goruchwyliwr. Caiff y gofrestr ei chadw gan y Goruchwylydd Safle Dynodedig am o leiaf 12 mis a bydd ar gael i weithiwr gyda'r heddlu ar gais.

3) Bydd hysbysiadau clir a dealladwy yn cael eu harddangos ym mhob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion a busnesau lleol trwy adael yr ardal yn dawel.

Hysbyswyd yr Aelodau y ceisiodd Claire Dewhurst gysylltu â Mrs Azzopardi a derbyniodd neges lais gan Mrs Azzopardi yn mynegi pryderon am yr amod sy'n gofyn am oruchwyliwr drws wedi'i gymeradwyo gan yr ADD. Nododd Claire Dewhurst fod Mrs Azzopardi wedi cadarnhau o'r blaen ei bod yn hapus i gytuno ar yr oriau a awgrymwyd yn y sylwadau ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru, gyda'r 20 munud ychwanegol o 'amser gorffen yfed' ar nos Wener a nos Sadwrn.

Cyfeiriwyd at nifer o ddigwyddiadau ar safle trwyddedig yng nghanol y ddinas a oedd yn cael ei weithredu gan Mrs Azzopardi. Mae gan y safle hwnnw bellach amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogi staff drws wedi'u cymeradwyo gan yr ADD.

Yna rhoddodd Claire Dewhurst grynodeb o gyfres arall o e-byst rhyngddi hi a Mrs Azzopardi yn trafod yr amod 'amser gorffen yfed' arfaethedig.

Nododd Claire Dewhurst fod y safle mewn lleoliad sy'n ardal breswyl yn bennaf. Mae'r bwyty ar y llawr gwaelod a chodwyd pryderon am y defnydd o'r llawr cyntaf. Yna rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am oriau gweithredu'r safleoedd trwyddedig eraill yn y cyffiniau, gan gynnwys safle SO sydd ag amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogi goruchwylwyr drysau wedi'u cymeradwyo gan yr ADD. Cyfeiriwyd hefyd at ddigwyddiadau ar y safle a oedd yn cael ei weithredu gan yr ymgeisydd yn y gorffennol.

Nododd Claire Dewhurst mai barn Heddlu De Cymru oedd y byddai angen cyflogi goruchwylwyr drysau wedi'u cymeradwyo gan yr ADD os yw'r safle'n ceisio gweithredu tan ganol nos er mwyn hyrwyddo amcanion trwyddedu. Mynegwyd pryderon y byddai rhoi trwydded yn gosod cynsail ar gyfer safleoedd trwyddedig eraill yn yr ardal ac y byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gan ymateb i gwestiwn gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd Ms Dewhurst na fyddai angen am oruchwylwyr drysau wedi'u cymeradwyo gan yr ADD petai'r ymgeisydd yn cytuno i weithredu tan 23:00 nos Wener a nos Sadwrn. Darparwyd rhestr o'r safleoedd trwyddedig yn yr ardal, eu math a'u horiau gweithredu. Dim ond yn achos un bwyty roedd amod lle roedd angen goruchwylwyr drws wedi'u cymeradwyo gan yr ADD. Nid yw'r amod hwnnw'n berthnasol oni bai bod digwyddiadau gyda mwy na 75 o bobl yn bresennol.

<u>Sylwadau Rheoli Llygredd</u>

Siaradodd Tomas Jenkins o'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir â'r Is-bwyllgor.

Hysbyswyd yr Aelodau bod gan y Tîm Rheoli Llygredd, ar ôl derbyn y cais, bryderon cychwynnol ynghylch yr oriau gwerthu alcohol, lluniaeth hwyr y nos, cerddoriaeth wedi'i recordio ac adloniant rheoledig. Trafodwyd y pryderon hynny â'r ymgeisydd a ystyriwyd bod cerddoriaeth wedi'i recordio ac adloniant rheoledig yn benodol yn anghymesur mewn ardal breswyl ac nad oedd y cais yn egluro sut byddai'r gerddoriaeth yn cael ei rheoli. Argymhellwyd na ddylai adloniant rheoledig bara'n hwyrach na 23:00 ac na ddylai cerddoriaeth wedi'i recordio bara'n hwyrach na 23:30. Argymhellwyd y dylid gwerthu alcohol tan 23:30 rhwng nos Sul a nos Iau a than 00:00 ganol nos ar nos Wener a nos Sadwrn.

Cadarnhaodd Tomas Jenkins y cafwyd peth cyfathrebu â'r ymgeisydd o ran yr oriau gweithredu a argymhellwyd. Ystyriwyd nad yw'r ymgeisydd wedi egluro sut mae'n bwriadu rheoli'r risg o achosi niwsans. Felly, gofynnwyd i'r Is-bwyllgor gymhwyso'r oriau y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan yr ymgeisydd ac a amlinellwyd yn y sylwadau ysgrifenedig.

<u>I grynhoi</u>

Gwahoddwyd yr Is-bwyllgor gan Claire Dewhurst i ystyried pryderon Heddlu De Cymru ynghylch yr oriau gweithredu. Bydd yr amodau a argymhellwyd gan Heddlu De Cymru yn helpu i liniaru unrhyw broblemau posibl a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Nododd Tomas Jenkins nad oedd yr oriau y gwnaed cais amdanynt yn wreiddiol yn briodol mewn lleoliad preswyl. Mae swyddogion wedi ceisio bod yn gymwynasgar i'r ymgeisydd trwy awgrymu oriau a oedd yn fwy cymesur.

Nododd Mrs Azzopardi ei bod wedi gwneud cryn fuddsoddiad yn y busnes ac wedi dod ag ased i'r ardal. Mae'r busnes wedi cael ei groesawu a'i gofleidio gan drigolion lleol a dyna'r unig fwyty o'i fath yn yr ardal. Gwahoddwyd yr Aelodau i ganiatáu'r cais.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, GANIATÁU'R cais, fel a ganlyn:

1. Gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle a'r oriau agor cysylltiedig:

   Dydd Llun i ddydd Sul 10:00 i 00:00

2. Y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

   Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do):

   Nos Lun i nos Sul: 23:00 tan 00:00

3. Darparu adloniant rheoledig ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio:

   Dydd Llun i ddydd Sul 12:00 i 00:00

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Ystyriodd yr Is-bwyllgor hefyd

Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a'n Datganiad Polisi Trwyddedu ein hunain.

Yn ogystal ystyriodd yr Aelodau'r sylwadau a wnaed gan Heddlu De Cymru a Thîm Rheoli Llygredd Iechyd yr Amgylchedd gan ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig.

Nododd yr Is-bwyllgor y cytunodd yr ymgeisydd, yn ystod y cyfarfod, i leihau'r oriau gwerthu alcohol ac adloniant rheoledig ar ffurf cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio o 01:00 tan 00:00 (canol nos).

Nododd yr Is-bwyllgor fod yr ardal yn gymysgedd o adeiladau preswyl a masnachol a bod nifer o adeiladau trwyddedig gerllaw gydag amseriadau tebyg, ac nad yw'r safle hwn mewn ardal a gwmpesir gan bolisi effaith gronnol.

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau i'r cyfarfod a'r deunydd ysgrifenedig yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y gallai rhai o'r cynigion yn y cais danseilio'r amcanion trwyddedu. Felly, mae'r Is-bwyllgor yn penderfynu caniatáu'r canlynol:

i) Diwygio'r trefniad i werthu alcohol i'w yfed ar y safle a'r oriau agor cysylltiedig:
Dydd Llun i nos Sul 10:00 i 00:00

(ii) Ychwanegu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:
Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do):
Nos Lun i nos Sul: 23:00 tan 00:00

(iii) Darparu adloniant rheoledig ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio:
Dydd Llun i nos Sul 12:00 i 00:00

Gwrthodwyd y cais am adloniant rheoledig ar ffurf cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio:

## 3 : CAIS AR GYFER TRWYDDED SAFLE BETIO - BOYLESPORTS, STRYD CLIFTON

Ymgeiswyr: cynrychiolwyd gan Paddy Whur a Lee Otter

Pobl Eraill â Diddordeb: Owen Jones, Aelod Ward Lleol

Y Cais

Cais i ganiatáu Trwydded Safle Betio gan BoyleSports (UK) Limited ar gyfer BoyleSports, 21-22 Stryd Clifton, Adamsdown, Caerdydd. Atodwyd map o'r safle i'r adroddiad er mwyn i'r Aelodau weld lleoliad y safle. Derbyniodd yr Aelodau gopi o'r asesiad risg a gyflwynwyd gyda'r cais cyn y gwrandawiad.

Gwahoddwyd yr ymgeiswyr gan y Cadeirydd i gyflwyno'r cais. Hysbyswyd yr Aelodau bod gan BoyleSports drwydded gweithredwr a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Gamblo'r DU. Bydd y Comisiwn Gamblo'n asesu a yw'r busnes yn addas i gynnal yr amcanion trwyddedu cyn unrhyw geisiadau ar gyfer trwyddedau safleoedd. Mae'r Comisiwn Gamblo wedi asesu'r polisïau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais i sicrhau bod

yr amcanion trwyddedu'n cael eu bodloni. Trwy gyhoeddi trwydded, derbyniodd y Comisiwn Gamblo fod BoyleSports yn gwmni cyfreithlon sy'n gallu hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Ar hyn o bryd mae BoyleSports yn gweithredu 21 siop fetio drwyddedig yn y DU. Mae 4 trwydded ychwanegol wedi cael eu cyhoeddi ond nid yw'r safle'n gweithredu eto. Mae ganddynt hefyd safle ar Ynys Manaw a dros 350 o safleoedd yn Iwerddon. Nid yw cais am drwydded safle gan BoyleSports erioed wedi cael ei wrthod ac nid yw ei thrwydded safle erioed wedi cael ei hadolygu.

Cyn gwneud y cais, ystyriodd yr ymgeiswyr Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r awdurdod. Paratowyd asesiad risg gamblo ardal leol manwl a'i gyflwyno yn ôl y gofyn. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod yr asesiad risg wedi cael ei baratoi gyda dealltwriaeth o'r lleoliad a'r Datganiad Polisi Trwyddedu. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cais gan yr awdurdodau cyfrifol. Ystyriodd Mr Whur fod hyn yn arwydd bod gan yr ymgeisydd bolisïau cadarn ar waith megis hyfforddiant staff a phrofion dilysu oedran.

Nododd yr ymgeiswyr y gwrthwynebiad a dderbyniwyd gan y cynghorydd lleol. Gwnaed cynnig i gwrdd â'r Cynghorydd cyn y cyfarfod ac roedd y gwahoddiad hwnnw ar agor o hyd. Nododd Mr Whur fod gan BoyleSports hanes da o ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol.

Atgoffwyd yr Aelodau na chaniateir y rhai dan 18 oed mewn safleoedd trwyddedig ac y bydd arwyddion 'Think 21' amlwg ar y safle. Bydd gofyn i unrhyw un sy'n ymddangos yn iau na 21 oed roi prawf adnabod ffotograffig dilys. Mae hyn yn fater allweddol i BoyleSports. Mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant dilysu oedran a chynhelir profion dilysu oedran annibynnol trwy gydol y flwyddyn. Ymdrinnir â hyn yn asesiad risg yr ardal leol.

Soniodd Mr Whur hefyd am fater pobl sy'n agored i niwed. Mae pob aelod o staff yn cael ei hyfforddi i sylwi ar arwyddion rhybuddio o feddwdod alcohol neu gyffuriau ac mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cyffuriau ac Alcohol a Rheoli Gwrthdaro. Mae arfer cryf o ymgysylltu â chwsmeriaid a dilynir canllawiau'r Comisiwn Gamblo 'Nabod Eich Cwsmer'. Darperir teledu cylch cyfyng ar draws y safle. Mae gwybodaeth helaeth ar gael i'r rhai sydd â phroblemau gamblo hefyd.

Nododd Mr Whur fod BoyleSports yn cymryd eu polisïau o ddifri. Mae'r polisïau'n cael eu profi gan ffynonellau allanol ac yn gweithio er boddhad y Comisiwn Gamblo a nifer sylweddol o awdurdodau trwyddedu.

Atgoffwyd yr Aelodau fod y Ddeddf Drwyddedu'n gofyn am brawf statudol gwahanol mewn perthynas â chaniatáu trwyddedau safleoedd gamblo, yr ymdrinnir ag ef yn Adran 153 y Ddeddf Gamblo sy'n dweud y cyfarwyddir awdurdodau trwyddedu i ganiatáu'r defnydd o safle ar gyfer gamblo, oni bai na all y gweithredwr gydymffurfio â nifer o ofynion statudol a gweithredu mewn modd sy'n rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. Gofynnwyd i'r Aelodau edrych ar y prawf statudol, profiad yr ymgeisydd fel gweithredwr, y gwaith a wnaed i ddeall yr ardal leol a'r Datganiad Polisi Trwyddedu. Nid oes unrhyw beth i awgrymu na fyddent yn gyson â'r amcanion trwyddedu.

Yn ogystal cyfeiriodd Mr Whur at gynllun y safle a'r ffaith fod caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo i'r safle.

Wrth ymateb i bwynt a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd, derbyniodd Mr Whur fod llochesi pobl ddigartref, canolfannau gofal a llochesi menywod yn yr ardal. Roedd Mr Whur o'r farn nad oedd hi'n anarferol bod y fath gyfleusterau'n agos at siopau betio ac ymrwymodd yr ymgeisydd i weithio'n agos gyda'r sefydliadau hynny petai unrhyw broblemau y byddai angen mynd i'r afael â nhw. Nid oedd unrhyw awgrymiad y bu problemau rheoleiddio gyda siopau betio trwyddedig eraill yn y cyffiniau o ran pobl sy'n agored i niwed. Roedd unrhyw bryderon a godwyd yn y sylwadau gan y cynghorydd lleol yn cael eu lliniaru gan y polisïau trwyadl sydd ar waith a chefndir y gweithredwr.

Gan ymateb i gwestiwn, nododd Mr Lee Otter y byddai 3 aelod o staff amser llawn, 2 aelod o staff rhan-amser a glanhawr yn cael eu cyflogi ar y safle. Byddai lefelau staffio'n cael eu hasesu o ddydd i ddydd. Byddai system monitro diogelwch o bell hefyd ar waith fel y gellid darparu cymorth diogelwch pan fyddai dim ond un aelod o staff yno. Ar adegau prysurach, byddai 2 neu 3 aelod o staff. Mae'r model staffio'n cael ei fabwysiadu gan bob gweithredwr mwy neu lai.

Gofynnodd Aelodau sut yr ymdrinnir â gwrthodiadau ar y safle. Esboniodd Mr Otter y byddai staff y siop yn ymyrryd os byddent yn credu bod cwsmer yn betio mewn ffordd anghyfrifol neu os oedd y cwsmer yn rhywun y gwyddys na ddylai fod yn betio. Cofnodir pob 'rhyngweithio gamblo cyfrifol' a'i anfon at y Comisiwn Gamblo i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn bodloni gofynion eu dogfen bolisi. Mae atal cwsmer rhag gosod bet arall yn eitha hawdd. Os nodir gwendid, bydd staff rheoli'n cyflwyno llythyr i'r unigolyn i ddweud na chaiff osod bet ar y safle. Prin iawn y cafwyd gwrthdaro oherwydd gwrthodiadau.

Nododd Mr Otter hefyd y byddai unrhyw unigolyn yr ystyrir bod ganddo broblem gamblo yn cael ei gyfeirio at wasanaethau a allai ei helpu gyda hynny. Roedd y MOSES (System Hunanwahardd Amlweithredwr) hefyd ar waith sy'n galluogi unigolion i lenwi ffurflen syml o'u gwirfodd a fyddai'n eu hatal rhag gosod betiau mewn unrhyw siop fetio.

Ceisiodd y Cynghorydd Owen Jones eglurhad o ran y caniatâd cynllunio A2 a roddwyd ar gyfer y safle. Nododd Mr Otter y gwnaed y cais cynllunio ar y sail y byddai'r safle'n cael ei weithredu fel siop fetio. Fodd bynnag, bydai'r caniatâd A2 hefyd yn caniatáu defnyddiau eraill i'r safle.

Nododd Mr Otter fod trosiant staff yn BoyleSports yn llai na'u cystadleuwyr. Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn trefn hyfforddiant, arweiniad a chymorth cynhwysfawr.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones sut byddai ymgeiswyr yn nodi pobl a grwpiau sy'n agored i niwed. Nododd Mr Otter fod y Comisiwn Gamblo'n darparu canllawiau ond byddai hefyd yn galw ar ei 25 mlynedd o brofiad o fod yn weithredwr. Mae sawl elfen i'w hystyried wrth lunio dogfennau polisi. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y ddogfen asesiad risg wedi'i diweddaru mewn perthynas â grwpiau ac unigolion sy'n agored i niwed, o ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd yn sylwadau'r Cynghorydd Jones. Mae'r ddogfen asesiad risg yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd pan gaiff gwybodaeth newydd. Roedd Mr Otter hefyd o'r farn ei bod yn bwysig nodi

nad yw pawb sy'n byw mewn llety gwarchod mewn risg, er ei fod yn derbyn y gallent fod yn fwy agored i niwed.

Cadarnhaodd Mr Otter fod Stryd Clifton yn lleoliad targed oherwydd ei bod yn lleoliad prysur dichonadwy ond bod diffyg unrhyw gystadleuaeth ar gyfer y gweithredwr sydd â dwy siop o fewn 500 llath i'w gilydd.

<u>Sylwadau'r Bobl Eraill â Diddordeb</u>

Siaradodd y Cynghorydd Owen Jones â'r Is-Bwyllgor. Nododd y Cynghorydd Jones mai dyma oedd y tro cyntaf iddo ymddangos o flaen yr Is-bwyllgor ers cael ei ethol yn 2017 ac felly nid oedd yn gwrthwynebu ceisiadau trwyddedau safleoedd yn wamal. Roedd wedi ymyrryd ar yr achlysur hwn gan ei fod yn credu y byddai er budd y ward.

Diolchodd y Cynghorydd Jones i BoyleSports am y gwahoddiad i gyfarfod ond yn anffodus nid oedd yn gallu cwrdd â nhw oherwydd ymrwymiadau eraill.

Roedd y Cynghorydd Jones o'r farn nad oedd modd gwadu bod masnach yn cael trafferth yn Stryd Clifton a bod yr ardal yn ganolbwynt ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol. Mae'r gymuned a'r masnachwyr yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hynny ond roedd y Cynghorydd Jones yn poeni na fyddai ychwanegu siop fetio arall yn helpu gyda hynny.

Gofynnwyd i'r Aelodau ddarllen adran yr asesiad risg sy'n ymwneud ag unigolion sy'n agored i niwed. Roedd rhestr sylweddol o grwpiau a gwasanaethau ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed ond nid oedd yn cynnwys disgrifiad o'r gwasanaethau a ddarperir. Rhestrodd y Cynghorydd Jones y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir. Sefydlwyd un cyfleuster gerllaw yn benodol ar gyfer unigolion â'r ffyrdd mwyaf anhrefnus o fyw a chodwyd pryderon am ymrwymiad yr ymgeiswyr i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed rhag gamblo. Roedd y rhestr o gyfleusterau'n anghyflawn hefyd gan nad yw rhai o'r lleoliadau hyn yn cael eu hysbysebu'n eang.

Roedd y Cynghorydd Jones hefyd yn ystyried nad oedd yr adroddiad asesiad risg yn cydnabod grwpiau eraill o bobl sy'n agored i niwed – ffoaduriaid a'r gwasanaethau a ddarperir iddyn nhw yn lleol, yr oedd rhai ohonynt wedi'u rhestru. Mae caniatâd cynllunio hefyd wedi'i roi i gyfleuster gerllaw ar gyfer pobl sy'n gadael gofal.

Nodwyd bod gamblo'n symud yn gynyddol ar-lein ac er mwyn gamblo ar-lein, mae angen cyfrif banc ar unigolyn. Mae llawer o'r grwpiau agored i niwed ar y rhestr yn cael trafferth cael mynediad at gyfrif banc. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod dogfen asesiad risg BoyleSports ei hun yn sgorio rhai risgiau'n ganolig. Mae'r dull o liniaru'r risgiau hynny'n dibynnu'n fawr ar hyfforddiant staff. Roedd y Cynghorydd Jones yn adnabod ffrindiau personol oedd wedi gweithio mewn siopau betio a oedd wedi disgrifio natur anodd ac ynysig y swydd.

Nododd y Cynghorydd Jones iddo ymchwilio i sylwadau ar-lein a adborth gan gyn weithwyr BoyleSports. Gwrthwynebodd Mr Whur fod y sylwadau hynny'n cael eu cyflwyno yn y cyfarfod heb iddynt gael eu datgelu yn sylwadau ysgrifenedig y Cynghorydd. Gofynnwyd i'r Aelodau ddiystyru'r sylwadau hynny.

<u>I grynhoi</u>

Nododd Mr Whur na ddylai'r rheoliadau o dan bartïon y Ddeddf Gamblo gyflwyno gwybodaeth newydd yn y gwrandawiad yn ychwanegol at yr hyn yn eu sylwadau ysgrifenedig gan nad oedd gan yr ymgeiswyr gyfle i ymateb i'r wybodaeth honno.

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ymgeiswyr yn dangos bod gan yr ymgeiswyr systemau gweithredu ar waith sydd wedi cael eu gwirio gan y Comisiwn Gamblo ac awdurdodau lleol ar draws y DU ac nad oedd unrhyw awgrymiad bod yr ymgeiswyr wedi torri'r amcanion trwyddedu.

Cynigiodd yr ymgeiswyr gwrdd â'r Cynghorydd Jones ac maent yn parhau i wneud hynny. Cafodd yr adroddiad asesiad risg ei ddiweddaru hefyd gan ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gan y Cynghorydd. Rhoddwyd ymrwymiad i weithio gyda'r gymuned leol a'r gwasanaethau a restrwyd yn flaenorol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Gofynnwyd i'r Aelodau edrych ar y dystiolaeth a roddwyd gan yr ymgeiswyr, hanes y cwmni a'r cyflwyniadau clir gan Mr Otter. Gwahoddwyd yr Aelodau i ganiatáu'r cais.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Jones am gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn y gwrandawiad.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion y Ddeddf Gamblo a Pholisi Datganiad Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, GANIATÁU'R cais.

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeiswyr a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Mae'r Is-bwyllgor hefyd wedi ystyried Deddf Gamblo 2005 a'n Datganiad Polisi Trwyddedu Gamblo ein hunain.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor hefyd y sylwadau a wnaed heddiw gan Gynghorydd Ward lleol gan ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig.

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau trwyddedu i geisio caniatáu gamblo os ystyrir ei fod yn rhesymol gyson â chyflawni'r amcanion trwyddedu.

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau heddiw a'r deunydd ysgrifenedig yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeiswyr wedi dangos yn llwyddiannus bod y cais yn gyson â'r amcanion trwyddedu ac nad oes digon o dystiolaeth y byddai caniatáu'r drwydded hon yn tanseilio'r amcanion hynny.

## 4 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm